

Atodiad C – Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad

Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (Ile bo'n berthnasol): UCAC

e-bost / rhif ffôn:

rebecca@athrawon.com / 01970 639950

Eich cyfeiriad:

UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **21 Chwefror 2014** at:

Tîm Gweithlu'r Gwasanaethau Cyhoeddus
Is-adran Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gallwch ei gwblhau'n electronig a'i anfon at:

publicserviceworkforce@wales.gsi.gov.uk

gweithlugwasanaethaucyhoeddus@cymru.gsi.gov.uk

Cwestiynau

Cwestiwn 1 – A yw materion y gweithlu yng nghyswllt y pwerau canllaw arfaethedig yn y Bil Drafft yn briodol?

<input checked="" type="radio"/> Ydynt	<input type="radio"/> Nac ydynt	<input type="radio"/> Ddim yn siŵr
---	--	---

Sylwadau

Cwestiwn 2 – A oes unrhyw faterion eraill yn ymwneud â'r gweithlu y gellid eu cynnwys yng nghyswllt pwerau'r canllawiau arfaethedig?

<input type="radio"/> Oes	<input type="radio"/> Nac oes	<input checked="" type="radio"/> Ddim yn siŵr
---------------------------	-------------------------------	---

Sylwadau

Cwestiwn 3 – A yw'r trefniadau ymgynghori ar gyfer cyhoeddi, diwygio a dirymu'r canllawiau statudol yn briodol?

<input type="radio"/> Ydynt	<input checked="" type="radio"/> Nac ydynt	<input type="radio"/> Ddim yn siŵr
-----------------------------	--	------------------------------------

Sylwadau

O dan baragraff 30(b), mae angen bod yn gwbl glir bod undebau llafur sy'n gydnabyddedig gan *unrhyw* sefydliad o fewn y sector perthnasol yn rhan o'r ymgynghoriad.

Cwestiwn 4 – A yw'r rhestr o gyrff a allai fod yn ddarostyngedig i'r canllawiau yn briodol?

<input type="radio"/> Ydyw	<input checked="" type="radio"/> Nac ydyw	<input type="radio"/> Ddim yn siŵr
----------------------------	---	------------------------------------

Sylwadau

Mae'r gyrff sy'n cael eu rhestru yn gwbl briodol.

Deallwn anawsterau sefyllfa sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch, yn sgil Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014. Dadleuom y dylid cynnwys y sectorau hyn wrth ymateb i'r ymgynghoriadau blaenorol ar Weithlu'r Gwasanaeth Cyhoeddus (Gorffennaf 2012 a Rhagfyr 2013). Dadleuodd UCAC yn erbyn y Ddeddf am yr union reswm y byddai'r berthynas newydd rhwng y sectorau hyn a Llywodraeth Cymru'n golygu bod y Llywodraeth yn colli grym i reoli eu hymddygiad mewn nifer o feysydd hanfodol, fel yn yr achos hwn.

Parhawn i annog Llywodraeth Cymru i ymchwilio i ffyrdd cymwys o sicrhau bod sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn cael eu cynnwys o dan y Bil Drafft, a'u bod yn ddarostyngedig i'r canllawiau.

Yn ogystal, awgrymwn y dylid cynnwys y pedwar consortiwm addysg rhanbarthol, gan eu bod nhw:

- yn gynyddol, yn darparu gwasanaethau cyhoeddus yr arferid eu darparu gan Awdurdodau Lleol
- yn cael eu hariannu'n gyhoeddus
- yn cyflogi gweithwyr o fewn, neu mewn perthynas â, gwasanaethau cyhoeddus Cymru

Sylweddolwn fod y consortia mewn proses o newid, yn sgil sefydlu 'model cenedlaethol' ar eu cyfer gan Lywodraeth Cymru (ar sail argymhellion yr Adroddiad Hill). Mae eu strwythurau cyfreithiol yn wahanol i'w gilydd, ac mae'n bosib mewn rhai achosion y bydd angen gwahaniaethu rhwng y consortia eu hunain a'r gwasanaethau gwella ysgolion a sefydlwyd ganddynt. Pwyswn ar Lywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn ddarostyngedig i'r canllawiau statudol, neu o leiaf i'r Cod Ymarfer ar Faterion y Gweithlu.

Cwestiwn 5 – A oes unrhyw faterion eraill a ddylai gael sylw yn y Bil Drafft?

<input type="radio"/> Oes	<input type="radio"/> Nac oes	<input checked="" type="radio"/> Ddim yn siŵr
---------------------------	-------------------------------	---

Sylwadau

--

Cwestiwn 6 – A fyddai diwygio'r Cynllun Llywodraeth Leol yn helpu i atgyfnerthu rôl Cyngor Partneriaeth y Gweithlu a'r model partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru?

<input type="radio"/> Byddai	<input type="radio"/> Na fyddai	<input checked="" type="radio"/> Ddim yn siŵr
------------------------------	---------------------------------	---

Sylwadau

--

Cwestiwn 7 – A fyddai cyhoeddi datganiad polisi cysylltiedig yn helpu i esbonio ac atgyfnerthu rôl Cyngor Partneriaeth y Gweithlu?

<input type="radio"/> Byddai	<input type="radio"/> Na fyddai	<input checked="" type="radio"/> Ddim yn siŵr
------------------------------	---------------------------------	---

Sylwadau

Cwestiwn 8 – A fyddai unrhyw newidiadau eraill yn helpu i gefnogi rôl Cyngor Partneriaeth y Gweithlu?

<input type="radio"/> Byddai	<input type="radio"/> Na fyddai	<input checked="" type="radio"/> Ddim yn siŵr
-------------------------------------	--	--

Sylwadau

Cwestiwn 9 – A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr asesiadau effaith drafft?

<input type="radio"/> Oes	<input checked="" type="radio"/> Nac oes	<input type="radio"/> Ddim yn siŵr
----------------------------------	---	---

Sylwadau

Atodol - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle gwag hwn i'w nodi:

Sylwadau

Diolch yn fawr ichi am roi o'ch amser i roi eich barn inni. Nid ydym yn bwriadu cydnabod derbyn ymatebion unigol oni fyddwch yn rhoi 'X' yn y blwch isod.

A wnewch chi gydnabod derbyn yr ymateb hwn.

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau'n cael eu cyhoeddi, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n ddiennw, ticiwch yma: